Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Coed Aber Mawr

## Teithiau Byr

**GRADDFA:** 0 300 600 m

**PELLTER/HYD:** 2.1 milltir (3.4 km) 1 awr

**CLUDIANT CYHOEDDUS:** *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio)

**CYMERIAD:** Cymoedd coediog, stormdraeth, caeau a da byw, fe all fod yn wlyb ac yn fwdlyd mewn mannau, cerdded ar isffyrdd am 0.3 milltir (500 m)

**CHWILIWCH AM:** Safle rheilffordd Brunel a adawyd heb ei orffen • chwarelau bach wedi eu gorchuddio gan redyn • adar coetir • clychau'r gog ym mis Mai / Mehefin


**MWY O WYBODAETH:** Parcio wrth ochr y ffordd: tua 10 lle parcio, peidiwch â rhwystro'r lle troi

**CYMRWCH OFAL!**

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

**ALLWEDD**

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- Parcio wrth ochr y ffordd
- Safle Bws




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100022534.

# Coed Aber Mawr

## Teithiau Byr

**Hyd:** 1 awr

**Pellter:** 2.1 milltir (3.4 km)

**Cludiant cyhoeddus:** *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio).

**Cyfeirnod map:** SM885349

Yn hwyr yn y Gwanwyn, mae clychau'r gog gwyllt yn rhoi gwawr o liw i'r coetir uwchben Aber Mawr. Mae'r planhigion yn ffynnu ar lawr y coetir o dan y deri, y cyll a'r onn sy'n fwrlwm o ganeuon yr adar yn ystod misoedd yr Haf.

Cyn i lefel y môr godi 10,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd coetir yn ymestyn ymhell i'r gogledd o'r morlin sydd gennym ar hyn o bryd. Weithiau, pan fydd y llanw'n isel iawn fe allwch weld boncyffion y fforest goll wedi eu ffosileiddio yn Aber Mawr.

Efallai bod yna rhyw fath o gysylltiad rhwng olion y fforest coll a chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae'r stori a adroddir yn aml yn sôn am Fae Aberteifi fel tir a oedd unwaith yn boblog ac yn ffrwythlon iawn ac yn dweud ei fod wedi'i foddi miloedd o flynyddoedd yn ôl.

Fe ddaeth storm arw 1859 â'i storïau ei hun. Weithiau, dywedir mai'r storm yma a bentyrrodd y clawdd o raean bras sy'n gefndir i draeth Aber Mawr, ond mewn gwirionedd, ffurfiwyd y clawdd mewn ffordd llawer llai dramatig. Gadawyd y graean bras wrth i lefelau'r môr godi ar ddiwedd Oes yr Iâ.

Ond, fe adawodd y storm ei marc. Collwyd rhyw 100 o longau ac fe aeth un llong, y Charles Holmes, i drafferthion ac fe'i collwyd ynghyd â phob un o'r criw, yn agos at Aber Mawr.

Mae'r cildraeth yn dawel, ond fe fu'n brysur ar adegau. Daeth Aber Mawr at sylw'r peiriannydd pwysig o oes Fictoria, Isambard Kingdom Brunel, pan yr oedd yn chwilio am derfyna bosib i reilffordd newydd, er mwyn i deithwyr fyrddio llongau i Iwerddon.

Gosodwyd peth o'r trac yn y 1850au a gwnaethpwyd y paratoadau ar gyfer glanfeydd y naill ochr i'r cildraeth. Ond, daeth y prosiect i stop yn fuan wedi i'r gwaith ddechrau.

Mae Ian Meopham, Parcmon Sector y Gorllewin gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: Dyma ran fywiog iawn o'r arfordir ble mae'r tir yn cael ei erydu gan y môr, o bosib ar gyfradd o hanner metr y flwyddyn. Os edrychwch chi'n ofalus, fe welwch chi olion hen heol yr arfordir.

**Mwy o wybodaeth:** Parcio wrth ochr y ffordd: tua 10 lle parcio, peidiwch â rhwystro'r lle troi.